# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lesley Walton | Adran Etholiadol: | Townhill |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

1) Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi parhau i:
- ymdrin â materion gwaith achos wrth iddynt godi, gan gysylltu â swyddogion y cyngor etc. fel y bo'n briodol, ac rwyf bob amser yn mynd yn ôl at etholwr i roi gwybod iddo am y canlyniad
- paratoi cylchlythyrau rheolaidd a helpu i'w danfon i roi gwybod i'r holl breswylwyr am weithgareddau
- cynnal fy nghymorthfeydd misol a chyflenwi ar ran fy nghydweithwyr yn ôl y gofyn

2) Ers ymuno â Chorff Llywodraethu Ysgol Gymunedol Dylan Thomas, mynd i gyfarfodydd arferol ac ychwanegol, a rhoi cefnogaeth lle roedd ei hangen, megis cysylltu â swyddogion y cyngor i gyflymu'r gwaith atgyweirio angenrheidiol i'r to.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 7 | / | 9 | 78 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 18 | 83 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe (Partneriaeth Preswylwyr) | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 1 | / | 2 | 50 | % |
| **CYFFREDINOL** | **44** | **/** | **60** | 73 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cyrhaeddiad a Lles | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu | 1 | / | 3 | 33 | % |
| **CYFFREDINOL** | **2** | **/** | **6** | **33** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

1) Dewisais fod yn aelod o ddau bwyllgor cynghori'r Cabinet sy'n cefnogi aelod perthnasol y Cabinet yn gweithio mewn meysydd penodol o'i bortffolio.
2) Gan fod myfyrwyr yn byw yn Ward Townhill, euthum i gyfarfodydd y Pwyllgor Cyswllt Myfyrwyr a gynhaliwyd 3/4 gwaith y flwyddyn i weithio gyda'r holl sefydliadau addysgol trydyddol yn Abertawe.
3) Roeddwn yn aelod o Bwyllgor yr Ymddiriedolwyr sy'n cyfarfod 1/2 waith y flwyddyn i

ddyrannu grantiau i gyrff a chynlluniau gwirfoddol.
Yn ychwanegol at bwyllgorau'r cyngor, rwyf wedi parhau i fod yn aelod o gyrff allanol amrywiol:
Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y Gorllewin), Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol yr Hill, y ddau yng Nghanolfan y Ffenics, a Phwyllgor Canolfan Gymunedol Townhill

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Yn ogystal â'm cydgynghorwyr ward, rwyf wedi
- defnyddio'n cyllideb gymunedol i blannu blodau gwyllt ar draws y ward eto
- llwyddo i annog Dŵr Cymru i newid y weiren bigog ddiolwg ac ailbaentio'r gatiau rhydlyd wrth ochr y gronfa ddŵr ar Heol Townhill
- parhau i weithio gyda Cymunedau'n Gyntaf, cynghorwyr yn Ward gyfagos y Castell, a phreswylwyr lleol wrth gadw'r lle picnic posibl o gwmpas Llyn Golchi Mayhill heb sbwriel a thipio anghyfreithlon a cheisio sefydlu grŵp cyfeillion i ddatblygu hyn
- mynd i ymarfer treial ar un stryd yn y ward lle mae swyddogion yn atgyfnerthu'r rheol '3 sach ddu'r pythefnos', a'r hyn y gellir ei ailgylchu
- rhoi sylwadau i'r broses ymgynghori gwastraff gyda golwg ar gael ateb rhagweithiol, cydlynol a mwy effeithiol yn y tymor hir i fater sbwriel ac ailgylchu
- mynd i ddigwyddiadau un tro amrywiol eraill, gan gynnwys
  - sesiwn galw heibio preswylwyr yng Nghanolfan y Ffenics ar gyllideb 16-17 y cyngor
  - digwyddiad i ddathlu 15 mlynedd ers agor Llyfrgell Townhill
  - lansio traeth di-fwg treial ym Mae Caswell

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

1) Mewn swyddi blaenorol, rwyf wedi dysgu llawer fel athro, ymgynghorydd a dirprwy reolwr yn CAB, a swyddog tai, i'm cynorthwyo wrth ymdrin â phreswylwyr yn gyffredinol ac yn benodol wrth drin gwaith achos preswylwyr yn sensitif ac yn effeithiol.
2) Rwyf wedi ymgymryd â'r hyfforddiant canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf:
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
24/02/2016 - Gweithdy Tai'r Cynllun Datblygu Lleol
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
04/06/2015 - Gloywi Amddiffyn Plant
26/05/2015 – Ymwybyddiaeth Gwrthgaethwasiaeth a Masnachu Pobl

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

1) Roeddwn yn aelod o'r Gweithgor Craffu'n ceisio ateb i'r mater ceffylau wedi'u clymu
2) Rwyf wedi parhau i gymryd rhan yn y grŵp Credyd Teg Bae Abertawe, sydd bellach yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth am ddewisiadau eraill yn lle benthycwyr arian didrwydded
3) Gweler y blog yn lesleywaltoncouncillor@blogspot.com

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26.05.2016 |